

Seminar i rieni ar anhwylderau sbectrwm alcohol ffetws Dan ofal Dr Alan Price

Dull: Trwy Zoom

Dyddiad: Dydd Mawrth, 5 Hydref **Amser:** 1.00 – 2.30 pm

Cymrawd ymchwil ym Mhrifysgol Salford yw Dr Alan Price. Mae'n rhan o dîm sy'n ymchwilio i anhwylderau sbectrwm alcohol ffetws dan arweiniad yr Athro Penny Cook, mewn partneriaeth â Dr Raja Mukherjee yn y clinig cenedlaethol ar gyfer yr anhwylderau hyn yn Surrey. Mae ymchwil Dr Price yn y maes yn canolbwyntio ar ymyriadau a chefnogaeth, cyffredinrwydd ac effaith waethybol profiadau niweidiol yn ystod plentyndod. Mae wedi ysgrifennu a chyflwyno rhaglen hyfforddi ar gyfer rhieni a gofalwyr plant sydd ag anhwylderau sbectrwm alcohol ffetws a bu'n rhan o'r gwaith safon aur cyntaf ar gyfer amcangyfrif cyffredinrwydd y cyflwr yn y DU.

Bydd y seminar cychwynnol hwn yn rhoi trosolwg o anhwylderau sbectrwm alcohol ffetws, hanes a datblygiad y maes, sut yr amlygir y cyflwr a sut mae cael diagnosis, ei gyffredinrwydd mewn poblogaethau cyffredinol a phenodol, mecanweithiau niwed a achosir drwy fod yn agored i alcohol yn y groth, cymhlethdodau o ran bod yn agored i alcohol yn fynych, y canllawiau presennol ar gyfer gweithwyr proffesiynol, ac ymyriadau a chefnogaeth ar gyfer anhwylderau sbectrwm alcohol ffetws, gan gynnwys eu trin a'u hatal. Bydd y sgwrs yn para am ryw 50-60 munud a chaniateir tua 30 munud ar gyfer cwestiynau.

**I archebu lle, e-bostiwch samantha@standnw.org
neu ffoniwch y rhif 07570 583 842**